CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 19 MEHEFIN 2012

Presennol

Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W T Owen

Cynghorwyr
I C Thomas, H W Roberts, A Y Williams , A Kirk, M Thomas,
G Thomas , W L Davies, E Lovgreen, D Jones, E Hughes, S Hughes

1. Ymddiheuriadau

Cyng Tecwyn Thomas a Cyng Huw Edwards (cryfhau ar ol cyfnod yn ysbyty) Cyng W R Owen a Cyng A Hopcyn (gwyliau) Cyng A Bohana (gweithio)

2. Cyhoeddiadau'r Maer

1 Mehefin Clwb Peldroed noson wobrwyo
3 Mehefin Cwt Scoutiaid – Beirniadu Bunting
4 Mehefin Yacht club – goleuo'r Beacon
5 Mehefin Miwsig ar y Maes – siambr Fasnach
9 Mehefin Ras y Castell
17 Mehefin Etape ras beics cychwyn ar Y Maes

Wedi derbyn rhybudd o gynnig gan Cyng A Hopcyn i ysgrifennu llythyr o longyfarch i drefnwyr yr Etape – Penderfynwyd- cefnogi ac danfon llythyr ac hefyd i drefnwyr Miwsig ar Y Maes

Cyhoeddiad bod angen gwisgo clogynnau ar gyfer Sul Y Maer felly angen cofio nol y clogynnau

3. Datgan Buddiant Personol

W T Owen – Cynllunio a Panel cyllid
E Lovgreen – Gefeillio
A Y Williams – Panel Cyllid eitem 1 a 3
E Hughes – Panel Cyllid eitem 3
G Thomas – Panel Cyllid eitem 4

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Llythyr gan Cyngor Gwynedd ynghyd a holiadaur – i'w drafod ynghyd ag eitem 9

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i) Cyngor, 29 Mai 2012
ii) Panel Cyllid a Staff 12 Mehefin 2012

Penderfynwyd

Cyngor -Derbyn gyda'r newidiadau canlynol
Eitem 27 ychwanegu gair rheolaeth o flaen y gair traffig
Eitem 30.i newid bwnc trafod i gynnig
Eitem 30.ii newid dyddiad i 26 Mehefin
Panel cyllid
Cyfrannu fel a ganlyn
GWYl CANOL HAF - £1000

1. CAT – parti jiwbilee - £155.52 (WTO a AYW allan)
2. Clwb Peldroed – peidio cyfrannu gan bod y gaith ddim yn angenrheidiol yn y Gynghrair presennol
3. Noddfa – £258 (AYW , WTO a E HUGHES allan)
4. CAB - £2500 (WTO A GT allan)
5. Gefeillio - £1500 (EL allan)

Cadeiriwyd yr eitemau gan I C Thomas heb law am yr eitem ola

(cyrhaeddodd Cyng A Kirk yn nghanol cofnodion Panel Cyllid)

6. **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio

Penderfynwyd

Anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd

Angen diweddariad ar y canlynol
Drws mewnol
Llochesi bysus
Diweddariad blodau
Offer cyfieithu
Tynnu llun

Angen tynnu pethau sydd wedi digwydd allan ac ychwanegu un eitem o'r cyfarfod olaf sef y Mesur Cymru os nad ydym wedi derbyn ymateb o fewn 6 mis i ail ofyn

9. Un Llais Cymru

Llifogydd a hefyd holiadur Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd

Anfon llythyr i Cyngor Gwynedd yn gofyn beth yw eu cynllun nhw ar gyfer argyfwng llifogydd a gofyn am grynodeb o'r sylwadau o'r holiadur

10.Cyngor Gwynedd

Tîm Ewropeaidd

Rhif 121 – Diweddariad Polisi Amaeth Cyffredin 2014-2020

Penderfynwyd

Derbyn er gwbodaeth

11.Trefi Caerog Ewropeaidd

Ethol Llywydd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12.Cymraeg hefo'n gilydd

Penderfynwyd

Rhoi cais i mewn ac i'r clerc ynghyd a Cynghorwyr WL Davies, E Lovgreen , H W Roberts a E Hughes i gyfarfod i baratoi'r cais (gan ystyried gwobr dysgwr y flwyddyn yn y dyfodol os yw'r noson yn llwyddiannus),ac hefyd bob Cynghorydd i dynnu sylw mudiadau lleol i'r cynllun

13.Un Llais

Gwireddu potensial trafodaethau cyn ymgeisio
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

14.Cyngor Gwynedd

Adran Economi

Rhif 92 Ymholiadau chwilio am Bartner
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

15.Rhybudd o Gynnig Cyng. H. W. Roberts

Par: Lon Osgoi Bontnewydd
Penderfynwyd
Cefnogi y rhybudd ac ysgrifennu llythyr cryf iawn i ddatgan ein siom

16. Rhybudd o Gynnig Cyng. H. W. Roberts

Cynnig ar gyfer Cynhadledd Un Llais
Penderfynwyd
Cefnogi'r rhybudd ai ddanfon ymlaen i Unllais Cymru

17.Cwestiynau

Ydi'r darnau arian wed cael eu dosbarthu yn yr ysgolion ?
Ydi

Ydi'n wir bod bont Aber yn troi yn awtomatig ?
Dim yn gwybod

Gorffenodd y cyfarfod am 7.20

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....